| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 26/03/19 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 26/01/24 |
| **Rhif y fersiwn:** | 2.02 |

| | |
|---|---|
| **Maes gwasanaeth:** | Addysg |
| **Maes gwaith:** | Y Blynyddoedd Cynnar |
| **Manylion cyswllt:** | 01443 863232<br>HwbYBlynyddoeddCynnar@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r hysbysiad preifatrwydd:** | Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar – Plant Cynenedigol i 7 Oed |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych chi pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

### Categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol chi:

Manylion rhiant neu ofalwr:
- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni'r rhiant
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Rhif ffôn symudol
- Dewis iaith
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Unrhyw anableddau
- Statws beichiogrwydd
- Manylion eich partner os oes gennych chi un (fel uchod)
- Statws o ran y Lluoedd Arfog

Manylion y plentyn:
- Os yw heb ei eni, dyddiad geni disgwyliedig y plentyn, enw'r fydwraig, enw'r meddyg teulu, a pherthynas y rhieni â'r plentyn
- Os yw wedi ei eni, enw'r plentyn, dyddiad geni, cyfeiriad, iaith a siaredir, rhyw, ethnigrwydd, unrhyw anableddau, unrhyw faterion meddygol, perthynas â'r rhiant/gofalwr a'i bartner/phartner, os oes ganddyn nhw un.
- Unrhyw frodyr a chwiorydd sydd gan y plentyn

### Ffynhonnell y data personol

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i Dîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili gan y rhiant neu ofalwr neu gan weithiwr proffesiynol ar ran y rhiant neu ofalwr trwy lenwi un o'r ffurflenni ar-lein canlynol, sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili, neu drwy gysylltu â Hwb y Blynyddoedd Cynnar:

- Ffurflen Gofrestru Plant Cynenedigol a'r Blynyddoedd Cynnar
- Ffurflen Cais am Gymorth y Blynyddoedd Cynnar
- Ffurflen Gais Gofal Plant Dechrau'n Deg
- Ffurflen Atgyfeirio JAFF / ISCAN / SPACE

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth hon, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Efallai y bydd gofyn i chi wneud cais am yr wybodaeth hon fel Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth chi

### Diben y gwaith prosesu

Pan fydd rhiant yn cofrestru ar gyfer rhaglen y Blynyddoedd Cynnar, bydd gwybodaeth yn cael ei storio ar gronfeydd data diogel perthnasol a'i defnyddio i gynnig gwasanaethau perthnasol i'r rhiant a'r plentyn / plant yn yr oedran neu gyfnod bywyd perthnasol. Gall y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gynnwys grwpiau ymwelwyr iechyd / pecynnau cartref iechyd, rhaglenni rhianta, cymorth i'r teulu yn y cartref, cymorth lleferydd ac iaith, cymorth datblygu plentyn a lleoliadau gofal plant a ariennir o bosibl yn dibynnu ar anghenion y plentyn a meini prawf ariannu.

Unwaith y bydd eich plentyn chi'n rhan o raglen y Blynyddoedd Cynnar, gellir casglu gwybodaeth berthnasol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a chyflwyno'r rhaglen megis data an bresenoldeb, trefniadau gofal y plentyn, unrhyw ymyriadau, asesiadau ac adroddiadau mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu.

Yn ogystal, efallai y byddwn ni'n gofyn am eich caniatâd chi i ddefnyddio lluniau a fideos o'ch plentyn at ddibenion marchnata. Fel arall, ni fydd hyn yn effeithio ar y rhaglen Blynyddoedd Cynnar sy'n cael ei darparu.

Bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu rhwng partneriaid darparu'r rhaglen lle bo angen darparu cymorth i'r plentyn a'r teulu. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lleoliadau gofal plant, sefydliadau perthnasol dan gontract gan y Cyngor, ac ysgolion perthnasol. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd Beth sy'n Bwysig, cyfarfodydd Panel Anghenion sy'n Dod i'r Amlwg, cyfarfodydd Panel Allgymorth y Ganolfan Adnoddau Arbenigol, a chyfarfodydd Pontio Gofal Plant Estynedig, lle bydd gweithwyr proffesiynol ehangach sy'n berthnasol i'r teulu yn cael eu gwahodd.

Os credir, ar unrhyw gam o'r broses, y gallai plentyn neu oedolyn fod mewn perygl, bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn cael eu dilyn, a gall hyn arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn olygu bod sawl asiantaeth fel yr heddlu, iechyd neu addysg yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth chi sy'n cael ei nodi isod:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, sy'n gosod saith nod llesiant i ddangos y math o Gymru rydyn ni am ei gweld ac yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i weithio i gyflawni'r nodau hyn, sy'n cynnwys:

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, sy'n gosod dyletswydd o ran llesiant ar y rhai sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf i hyrwyddo llesiant –

(a) pobl sydd angen gofal, a
(b) gofalwyr sydd angen cymorth

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

> *1(e) processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;*

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o erthygl 9 o'r Rheoliad, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

> *2(g) processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of domestic law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;*

Gan ein bod ni'n dibynnu ar yr amod budd cyhoeddus sylweddol yn Erthygl 9(2)(g), rhaid i ni hefyd nodi un o'r 23 amod budd cyhoeddus sylweddol penodol sy'n cael eu gosod yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*6(1) This condition is met if the processing—*
- *(a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and*
- *(b) is necessary for reasons of substantial public interest.*

*(2) Those purposes are—*
- *(a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;*
- *(b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.*

**Sail gyfreithiol ar gyfer lluniau a fideos**

Os byddwn ni'n gofyn am gael defnyddio lluniau neu fideos o'ch plentyn mewn deunydd hyrwyddo, byddwn ni'n ceisio cael eich caniatâd i wneud hynny, ac at y diben hwn, rydyn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithiol 'Caniatâd' ar gyfer prosesu o Erthygl 6 o'r Rheoliadau fel sydd wedi'i nodi isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1(a) the data subject has given consent to the processing of his or her personal data for one or more specific purposes;*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth chi yw Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili. Fodd bynnag, oherwydd natur y rhaglen, efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu â meysydd gwasanaeth eraill o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a sefydliadau partner eraill i ddiwallu anghenion eich teulu chi.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth chi o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Bydd manylion cofrestru a gwybodaeth am deuluoedd yn cael eu rhannu gyda thîm y Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod teuluoedd yn cael cynnig rhaglen y Blynyddoedd Cynnar yn llawn, heb orfod ailadrodd eu stori i wahanol weithwyr proffesiynol, a all gynnwys:

- Y tîm gweinyddol ar gyfer anfon gwahoddiadau i'r gwasanaeth ar yr oedran / cam perthnasol
- Lleoliadau gofal plant i wahodd teuluoedd i gofrestru ar gyfer gofal plant, yn dibynnu ar yr angen
- Y tîm Lleferydd ac Iaith i gynorthwyo ymyriadau lleferydd ac iaith yn y cartref, grŵp, lleoliad gofal plant neu ysgol
- Y tîm Cymorth i Deuluoedd i gynnig cymorth grŵp neu gartref
- Y tîm datblygu plant i gynnig cymorth grŵp neu gartref

Mae’r holl wybodaeth sy'n dod i law yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata'r gyfadran Addysg a bydd yn cael ei rhannu fel y bo’n berthnasol gyda thimau eraill o fewn y gyfadran Addysg, gan gynnwys Derbyniadau Ysgol, swyddogion Anghenion Dysgu Ychwanegol, Seicoleg Addysg i gynorthwyo plentyn i bontio i Feithrinfa Cyfnod Sylfaen / Ysgol Gynradd.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phartneriaid darparu eraill y Cyngor, gan gynnwys y tîm Cefnogi Newidiadau Teulu, os oes angen.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Mae’n bosibl y bydd manylion cofrestru a gwybodaeth am deuluoedd yn cael eu rhannu â phartneriaid darparu er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cynnig gwasanaethau perthnasol y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – bydwreigiaeth, y tîm ymwelwyr iechyd, therapi lleferydd ac iaith, a thimau therapi eraill i gynorthwyo negeseuon ac ymyriadau iechyd y cyhoedd
- Tîm Iaith Gynnar Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent – er mwyn darparu grwpiau lleferydd ac iaith
- Rhwydwaith Rhieni – er mwyn gwahodd rhieni i fforwm rhieni lleol
- Darparwyr Gofal Plant cofrestredig perthnasol y Blynyddoedd Cynnar – er mwyn gwahodd teuluoedd i gofrestru ar gyfer gofal plant
- Ysgolion – er mwyn cynorthwyo proses bontio'r plentyn i feithrinfa a/neu ysgol
- Partneriaid darparu allanol Teuluoedd yn Gyntaf, drwy ddogfen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd
- Gwasanaethau Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN)
- Panel Un Pwynt Mynediad ar gyfer Lles Emosiynol Plant (SPACE) a Phaneli Niwroddatblygiadol (ND)

Mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ddienw ei rhannu â Llywodraeth Cymru / SAIL Databank (sydd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru) i gynhyrchu gwybodaeth ystadegol ddienw at ddibenion gwella iechyd, llesiant a gwasanaethau yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect hwn ar gael ar eu gwefan: www.saildatabank.com/faq/

Os credir, ar unrhyw gam o'r broses, y gallai plentyn neu oedolyn fod mewn perygl, bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn cael eu dilyn, a gall hyn arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gall hyn olygu bod sawl asiantaeth fel yr heddlu, iechyd neu addysg yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi.

### Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Rhwydwaith Rhieni
- Darparwyr Gofal Plant dan Gontract Perthnasol

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Mae'r wybodaeth sydd gennym ni'n rhan o Gofnod Addysg y plentyn a bydd yn cael ei chadw tan ben-blwydd y plentyn yn 25 oed.

# Eich hawliau chi (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Yr hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

https://www.caerffili.gov.uk/my-council/data-protection-and-freedom-of-information/questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd rhaglen y Blynyddoedd Cynnar yn defnyddio eich gwybodaeth chi i gynnig gwasanaethau perthnasol i'r rhiant/plentyn yn seiliedig ar eich anghenion chi. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phartneriaid cyflawni perthnasol. Tasg gyhoeddus yw ein sail gyfreithiol ni ar gyfer prosesu. Mae'r wybodaeth sydd gennym ni'n rhan o Gofnod Addysg y plentyn a bydd yn cael ei chadw tan ben-blwydd y plentyn yn 25 oed.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

https://www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/early-years-privacy-notice-cy.aspx